

MAE ANGEN EICH HELP AR FAELGWN CYMRU!

Ydych chi wedi gweld y siarc hwn yn nyfroedd Cymru? Mae angen gwybodaeth er mwyn deall y rhywogaeth hon sydd mewn perygl difrifol yn well



Peidiwch â thargedu

Mae maelgwn wedi'u diogelu'n helaeth yn nyfroedd Cymru ac mae'n anghyfreithlon targedu'r rhywogaeth hon

Dilynwch y canllawiau

Os ydych yn dal maelgi wrth bysgota ar ddamwain, dilynwch y canllawiau hyn i'w ryddhau yn y cyflwr gorau posibl

Adroddwch ynghylch gweld y rhywogaeth

Er mwyn helpu i warchod y rhywogaeth hon, adroddwch ynghylch gweld y maelgi i: angelsharknetwork.com/cymru/

BETH YW MAELGI?

Siarc mawr gyda chorff gwastad sy'n gallu estyn hyd at 2.4m o hyd yw'r maelgi (*Squatina squatina*).



O bryd i'w gilydd, mae'n cael ei gam-adnabod fel morgath neu ei gam-gofnodi fel cythraul môr. Mae cythreuliaid môr a maelgwn yn rhannu'r un enw cyffredin mewn rhai cymunedau pysgota Saesneg eu haith, sef monkfish neu monk.

Mae'n bwydo ar amrywiaeth o bysgod, cramenogion a molysgiaid, ac yn cyflawni rôl bwysig o ran cynnal ecosystem forol gytbwys.

Pam mae adrodd yn bwysig?

Ar un adeg, roedd gan faelgwn ddsbarthiad daearyddol eang drwy gydol rhannau ogledd-ddwyreiniol Cefnfor yr Iwerydd a'r Môr Canoldir. Yn dilyn dirywiad dros ddegawdau, maent wedi diflannu o lawer o'u hen gynefinoedd. Er hynny, mae maelgwn sy'n cael eu dal ar ddamwain yng Nghymru yn dangos bod y rhywogaeth yn dal i fyw yma. Mae angen cymryd camau brys er mwyn deall yn well faint o faelgwn sy'n defnyddio dyfroedd Cymru a lle y gellir dod o hyd iddynt.


Sut mae maelgwn yn cael eu hamddiffyn yng Nghymru?

Gwaherddir amharu, targedu, niweidio neu ladd maelgwn yn fwriadol o fewn 12nm o forlinau Cymru a Lloegr (Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981).

O ran pysgotwyr masnachol, gwaherddir holl gychod yr UE a chychod trydydd gwledydd rhag targedu, cadw, trawslwytho neu lanio maelgwn o fewn dyfroedd yr UE. Mae'n rhaid cofnodi'r holl bysgod >50 kg sy'n cael eu taflu. (Rheoliad Cyngor (UE) Rhif 2017/127).

CANLLAW ARFER GORAU AR GYFER RHYDDHAU MAELGWN YN DDIOGEL OS CÂNT EU DAL AR DDAMWAIN


Ni ddylid targedu maelgwn, ond mae'r canllaw hwn wedi cael ei ddatblygu gyda physgotwyr gyda'r nod o leihau marwolaethau os ydynt yn cael eu dal ar ddamwain.



Tynnu'r bachyn


Cofnodwch faint a rhyw'r siarc. Mae gan siarcod gwrywaidd ddau glasper (atodion hir) y tu ôl i'r asgell belfig.

Mae hyn yn helpu i ni ddeall strwythur y boblogaeth.



Tynnwch y bachyn o'r maelgi yn y dŵr wrth ochr y cwch. Os oes rhaid i chi dorri'r llinell gyswllt â'r bachyn, gwnewch hynny mor agos at y bachyn â phosibl.


Mae dŵr yn cefnogi'r organau mewnol.



Rhyddhau

Dylech ryddhau'r siarc cyn gynted â phosibl ar ôl tynnu'r bachyn. Dylid ei ollwng i'r dŵr yn wynebu'r llanw neu'r tonnau.

Mae hyn yn gwtio ocsigen drwy ei dagellau er mwyn caniatáu iddo nofio i ffwrdd yn gyflym.




Dal â llaw

(DIM OND os oes angen)

Peidiwch byth â dal y siarc wrth ei gynffon, ei esgyll, neu'r tagellau. Mae angen i chi gefnogi ochr isaf y siarc

er mwyn cynorthwyo'r organau mewnol a lleihau'r risg o anaf.



Glanio ar gwch


(DIM OND osoes angen)

Dylid lleihau'r amser a dreulir mewn cyswllt â siarcod. Os oes angen i chi lanio'r siarc ar y cwch er mwyn tynnu'r bachyn yn ddiogel, defnyddiwch rwyd lanio fawr. Peidiwch byth â defnyddio tryfer.

Er mwyn cefnogi'r organau mewnol a lleihau'r tebygolrwydd o'i anafu,

gosodwch y siarc ar wyneb oer, gwlyb a meddal (e.e. tywel gwlyb). Rhowch dywel wedi'i wlychu mewn dŵr môr dros ei lygaid

er mwyn ei gadw'n dawl a'i atal rhag corddi.



Cyngor ar offer pysgota

Defnyddiwch fachau pres heb adfachau bob tro (neu fachyn arall gyda'r adfach wedi'i osod yn wastad)

i leihau'r risg o fachu'r coluddyn er mwyn ei gwneud hi'n haws dadfachu'r siarc.

Defnyddiwch llinell gref

er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y llinell yn torri a chael ei llusgo ymaith gan y siarc.



Cymryd samplau genetig

Os hoffech fod yn rhan o'r gwaith hwn, cysylltwch â angelsharks@zsl.org

Rhwbiwch dri sgwriad genetig ar groen y maelgi. Gosodwch hyn â sêl yn y pecyn genetig a ddarperir

er mwyn casglu data genetig a deall sut mae'r boblogaeth yn gysylltiedig.

Adrodd

Adroddwch ynghylch dal maelgi ar ddamwain ar angelsharknetwork.com/#map neu anfonwch e-bost at angelsharks@zsl.org

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn deall a gwarchod maelgwn yn well.

ZSL
LET'S WORK
FOR WILDLIFE

Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

heritage
lottery fund
LOTTERY FUNDED

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WFA & CPC

SHARK
TRUST

ASSOCIATION OF
SHARK
SCIENTISTS

Angel Shark
Project